COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 16 GORFFENNAF 2024 16:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | C Davies | J E Pratt | I Williams |

Yn Bresennol - yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | W J Kendall | MJ Williams | G Walter |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, P W Jenkins a MJ Kearn

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |
| Delyth Webb | Rheolwr Grŵp, Adfywio Strategol |
| Ieuan Sherwood | Rheolwr Grŵp, yr Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro/Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

Datgan Buddiannau

Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell – Personol – Aelod Cabinet pan anfonwyd Eitem 4 i ymgynghoriad.
Rhagfarnus – Aelod Cabinet pan ystyriwyd Eitem 7.

## 75. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Penderfynwyd:Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 dyddiedig 22 Ebrill 2024, yn amodol ar gynnwys y Cynghorydd Graham Walter yn bresennol ar gyfer y cyfarfod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2024 |

## 76. Strategaeth Adfywio y Cymoedd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Penderfynwyd:Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafodaethau manwl gydag Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau ac argymhellion canlynol:<br><br>Trafododd y Pwyllgor yn fanwl sefyllfa bresennol drafftio Strategaeth Adfywio ar gyfer y Cymoedd, sut roedd cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y mentrau adfywio economaidd, canlyniad y broses ymgynghori cyhoeddus i lywio'r strategaeth a'r prosiectau yn y Cymoedd o dan Amcan y Cynllun Corfforaethol – Bwrdeistref Sirol gyda chymunedau cymoedd ffyniannus.<br><br>Argymhellion:<br>1. Gofynnodd yr ymgynghoriad cyhoeddus a fyddai'n llywio'r strategaeth i ymatebwyr raddio rhestr o elfennau yn ardal(oedd) y Cymoedd o ragorol i wael iawn, rhoddwyd cyfle hefyd i'r ymatebwyr roi sylwadau ar elfennau eraill yn yr ardal, a chasglwyd y sylwadau a dderbyniwyd gan thema mewn tabl yn yr adroddiad. Trafododd yr Aelodau yr elfennau amrywiol a'r cyllid y byddai ei angen i'w dwyn ymlaen yn y dyfodol ac wrth edrych ymlaen argymhellodd y Pwyllgor wrth edrych ar y Cynllun Corfforaethol fod yr elfennau a nodwyd i lywio'r Strategaeth yn cael eu hidlo i'r broses honno, a bod eu cyllid yn cael ei ystyried wrth edrych ar y broses gyllideb.<br><br>2. Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch rheoli disgwyliadau a'r angen i fod yn ystyriol o beidio â chreu gobaith ffug yn y Cymoedd, a chydbwyso hynny â'r hyn y gallai'r Cyngor ei gyflawni. Cytunodd swyddogion ei bod yn her, i reoli'r hyn y gallai'r Cyngor ei gyflawni ar waith ar y strategaeth a'r elfennau y gellid eu cyflawni yn y Cymoedd. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid rhoi gwybod i Bwyllgor Trosolwg a |

| | |
|---|---|
| | Chraffu Pwnc 3 am y strategaeth ddrafft ar gyfer craffu cyn penderfynu cyn ei adrodd i'r Cabinet yn ddiweddarach yn y flwyddyn ddinesig a gwahodd aelodau lleol nad ydynt yn eistedd ar y Pwyllgor i'r cyfarfod ar gyfer yr adroddiad hwnnw.<br><br>3. Adlewyrchodd y Pwyllgor mai'r adroddiad a dderbyniwyd oedd fframwaith sylfaenol yr hyn oedd i ddod a theimlai fod cyfle ganddynt i lunio Strategaeth Adfywio'r Cymoedd yn y dyfodol. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r strategaeth ddrafft fod yn ystyrlon ac yn gyflawnadwy, gan ystyried, er ei bod yn un strategaeth, fod tri chwm ar wahân ac y dylid cynnal hunaniaeth pob un ac wrth fyfyrio ar brofiadau o strategaethau Adfywio eraill, roedd yn bwysig wrth symud ymlaen gyda Strategaeth Adfywio'r Cymoedd sefydlu map ffordd syml y gellid ei fynegi, lle y gellid cydnabod a chyflawni gwelliannau llai, gan gynnal ymagwedd ychydig ac yn aml, gan gydbwyso rheoli disgwyliadau trigolion â chyflawni'r hyn a gynigir yn y Strategaeth.<br><br>4. Trafododd yr Aelodau rôl yr Ymgynghorwyr a dyfnder y cwestiynu a gynhwysir yn yr ymgynghoriad i lywio'r Strategaeth ac argymhellodd y Pwyllgor y dylid ystyried yn y dyfodol i weld a fyddai modd casglu gwybodaeth a data yn fewnol, neu gan rywun a ddygwyd i mewn i gasglu a chynnal data/gwybodaeth, er mwyn gallu edrych ar y data a dirnadaeth a dynnwyd os a phryd y defnyddir ymgynghorwyr i helpu i gael dealltwriaeth gorfforaethol o'r ardaloedd a sefydlu llinell sylfaen yn well, yn ogystal â chael gwell gwerth am arian o ddefnyddio ymgynghorwyr.<br><br>5. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r strategaeth ddrafft gynnwys graffeg ar gyfer yr ardaloedd y gallai Aelodau Lleol ei rannu yng nghymunedau'r Cymoedd a allai helpu i godi ymwybyddiaeth o'r strategaeth ddrafft ac a allai gynyddu nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor am yr wybodaeth ychwanegol ganlynol:<br><br>6. Gwybodaeth am y Grant Rhwydwaith Bysiau, sut y derbyniwyd y Grant, sut y gwariwyd yr arian ychwanegol a sut y cafodd ei ddyrannu. Dywedodd swyddogion yn y cyfarfod y byddent yn siarad â'r Swyddog Trafnidiaeth Gyhoeddus i gael y wybodaeth i'w dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor. |

| | |
|---|---|
| | 7. Yr ymgynghorwyr a ddefnyddiwyd a chost y gwaith. Dywedodd swyddogion yn y cyfarfod y gallent ddarparu'r wybodaeth hon i'w dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor o asesiad y tendr. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2024 |

**77. Adroddiad Enwebu Pencampwr Rhianta Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Penderfynwyd:Enwebu’r Cynghorydd Jonathan Pratt i gynrychioli Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 fel Gwahoddedig i gyfarfodydd Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2024 |

**78. Ymateb y Cabinet i Argymhellion y Pwyllgor ar yr Alwad am Benderfyniad y Cabinet mewn cysylltiad â'r defnydd arfaethedig o brotocol trosglwyddo trafodion tir gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer tir ym Mrynmenyn a Bryncethin.**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno ymateb y Cabinet i'r Pwyllgor i'r Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor ar yr Alwad am Benderfyniad y Cabinet ar 12 Mawrth 2024, mewn cysylltiad â'r adroddiad uchod a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 16 Ebrill 2024.<br><br>Ar ôl ystyried yr ymateb,<br><br>Penderfynwyd:Nododd y Pwyllgor ymateb y Cabinet i argymhellion y Pwyllgor a wnaed yn yr Alwad am Benderfyniad y Cabinet mewn cysylltiad â'r defnydd arfaethedig o brotocol trosglwyddo trafodion tir gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer tir ym Mrynmenyn a Bryncethin. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2024 |

## 79. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Penderfynwyd: Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar gynnwys yr eitemau isod, yn nodi'r Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nodi y byddai'r Flaenraglen Waith, y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, yn dilyn y cylch hwn o Gyfarfodydd Pwyllgor.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor i'r canlynol gael ei gynnwys yn y Flaenraglen Waith:<br><br>8. Gan fod y Pwyllgor wedi trafod adfywio Porthcawl a'r Cymoedd yn ddiweddar, gofynnodd y pwyllgor am ychwanegu adfywio Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr at y Flaenraglen Waith ar yr amser priodol yn yr amserlen ar gyfer 2024-25.<br><br>9. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Diweddariad Tai a drefnwyd ar gyfer cyfarfod 30 Medi gynnwys bod y cynnydd ar dai gwag yn cynnwys eglwysi a chapeli gwag.<br><br>10. Gofynnodd y Pwyllgor y gallai Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol gael eu trefnu fel Briffio Aelodau yn hytrach nag Adroddiad Gwybodaeth.<br><br>11. Gofynnodd y Pwyllgor am gynnwys diweddariad ar Bafiliwn y Grand Porthcawl yn y Diweddariad ar Adfywio Porthcawl - sesiwn Briffio Aelodau, neu fel arall gael ei gynnwys yn yr adroddiad ar Neuadd y Dref Maesteg a drefnwyd ar gyfer cyfarfod mis Chwefror, os oedd potensial iddynt gael eu cynnwys gyda'i gilydd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2024 |

## 80. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2024 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 18:35.